

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Bwrdd
Cynghorau Iechyd Cymuned a'r 7 CIC
yng Nghymru

Awst 2019



Cynnwys

	Rhif tudalen
Crynodeb gweithredol	2
Cefndir	4
Cyflwyniad	5
Egwyddorion cyffredinol y Bil	6
Rhwystrau posib a chanlyniadau anfwriadol	8
Goblygiadau ariannol y Bil	28
Pwerau i greu is-ddeddfwriaeth	32
Casgliad	33

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yn croesawu, yn fras, nodau Llywodraeth Cymru i gyflwyno ei Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) ("y Bil") newydd. Mae angen gwneud newidiadau i gryfhau'r cynigion mewn rhai agweddau allweddol a sylfaenol.

Dyletswyddau o ran ansawdd a gonestrwydd

Mae'r methiannau ysgytwol ac annerbyniol diweddar, a ddaeth i'r amlwg mewn gwasanaethau mamolaeth a ddarparwyd gan gyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn atgof trist o'r hyn all ddigwydd pan fo pethau'n mynd o chwith mewn sefydliadau iechyd a gofal.

Mae'r cynigion yn y Bil, i gyflwyno dyletswydd gonestrwydd newydd a chryfhau'r ddyletswydd ansawdd yn y GIG, yn gyfle amserol i gyflwyno gofynion newydd, sydd â'r potensial i helpu i sicrhau na fydd methiannau fel y rhain y digwydd eto.

Y corff llais y dinesydd

Mae hanes hir a balch gan y CICau. Dros y 45 mlynedd ddiwethaf, mae aelodau gwirfoddol a staff wedi gweithio'n ddiflino, i adlewyrchu barnau a chynrychioli buddiannau pobl a chymunedau yn eu GIG.

Mae cyflwyno'r Bil yn rhoi cyfle i adeiladu ar yr etifeddiaeth hon, drwy gyflwyno corff llais y dinesydd 'arunigol', annibynnol a gwirioneddol gryfach, sy'n gweithio ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r CICau yn croesawu'r nodau eang ar gyfer y corff newydd, a amlinellwyd yn y Bil. Credwn fod darpariaethau'r Bil yn mynd peth ffordd i adlewyrchu'r hyn mae pobl yn dweud wrthym sy'n bwysig iddynt.

Roeddem yn falch o weld, er enghraifft, bod y cynigion yn bwriadu bydd y corff newydd yn:

- ☺ ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl mewn gwahanol ffyrdd
- ☺ adlewyrchu barnau a chynrychioli buddiannau pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, drwy wneud gosodiadau i gyrff iechyd a gofal (gan gynnwys ar newidiadau i wasanaethau)
- ☺ ymestyn y cymorth sydd ar gael i bobl dan 18 oed sydd am wneud cwyn am eu gofal
- ☺ bod yn gorff arunigol, annibynnol, tu allan i'r GIG, sy'n gallu cyflogi ei staff ei hun.

Mae'r CICau o'r farn bod angen gwneud y Bil yn gryfach mewn rhai meysydd sylfaenol ac **allweddol**, fel bod y corff llais y dinesydd newydd yn cael ei gyfarparu â'r adnoddau cywir i wneud y gwaith ledled Cymru.

Credwn dylai'r cynigion gael eu cryfhau, fel bod yr egwyddorion allweddol canlynol, sy'n rheoli'r ffordd mae'r corff llais y dinesydd newydd yn cael ei gynllunio a'i roi ar waith, yn cael eu gwarchod yn y gyfraith:

- ☺ dylai'r corff llais y dinesydd fod yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau wrth iddynt dderbyn gofal, drwy **hawl mynediad** i leoliadau iechyd a gofal
- ☺ dylai pobl allu gweld yn glir sut mae eu barnau a'u profiadau wedi cyfarwyddo a dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed gan gyrff iechyd a gofal a llunwyr polisi, drwy **ddyletswydd ar gyrff iechyd a gofal i ymateb** i osodiadau a wnaed gan y corff llais y dinesydd
- ☺ dylai fod **dyletswydd i gydweithredu** gan gyrff iechyd a gofal, i helpu a chynorthwyo'r corff llais y dinesydd i gyflawni ei rôl yn effeithiol

- rhaid i'r corff llais y dinesydd fod yn **hygyrch yn lleol**, a rhaid i'w weithgareddau gael eu cefnogi'n briodol gan fframwaith cadarn o **aelodau gwirfoddol, fel bod cudd-wybodaeth a gwybodaeth a gesglir yn lleol yn goleuo'r agenda flaenoriaeth, yn lleol ac yn genedlaethol**
- bod **system glir ac annibynnol** yn ei le, i ystyried unrhyw bryderon nad yw cyrff yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol neu'n cyflawni'r disgwyliadau a draethwyd yn y Bil a'r memorandwm esboniadol.

Mae sefydlu'r egwyddorion allweddol hyn, drwy **bwerau a dyletswyddau cyfreithiol penodol** (wedi'u hategu gan ganllawiau) ac **adnoddau digonol** yn hanfodol i gyflawni hyn.

Heb wneud hynny, credwn **na fydd** dyhead y Llywodraeth, i greu corff llais y dinesydd gwirioneddol gryfach ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, **yn cael ei gyflawni**.

Yn hytrach, bydd gan Gymru gorff llais y dinesydd newydd, gyda chylch gwaith ehangach ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol – ond heb y pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol sydd eu hangen, fel y gall gyflawni ei rôl. Rhaid iddo allu adlewyrchu barnau a chynrychioli buddiannau **pawb** mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

CEFNDIR

Mae'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (y Bwrdd CICau) yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, ar ddarpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Mae'r ymateb hwn yn cynrychioli barnau cyfunol y Bwrdd CICau a'r 7 Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd CICau yng Nghymru yn gosod safonau, yn rhoi cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd, ac yn rheoli perfformiad y CICau yng

Nghymru. Y CICau yw corff gwarchod annibynnol gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Rydym yn annog a galluogi aelodau'r cyhoedd i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar gynllunio, datblygu a darparu gofal iechyd ar gyfer eu teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Yn ogystal, mae'r CICau yn gweithio gyda'r GIG a chyrrff arolygu a rheoleiddio, i ddarparu'r cyswllt hanfodol hwnnw rhwng y rheiny sy'n cynllunio a darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rheiny sy'n ei arolygu a'i reoleiddio, a'r rheiny sy'n ei ddefnyddio.

Trwy ein rhwydwaith gadarn o aelodau gwirfoddol ymroddedig, sy'n weithgar yn ein cymunedau lleol, mae'r CICau yn clywed gan y cyhoedd mewn llawer o wahanol ffyrdd.

Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau a digwyddiadau cymunedol, cyswllt uniongyrchol â chleifion, teuluoedd a gofalwyr, drwy ein gwasanaeth ymholiadau, ein gwasanaeth eirioli cwynion, gweithgareddau ymweld, a thrwy arolygon y claf a'r cyhoedd. Mae pob un o'r 7 CIC yng Nghymru yn cynrychioli "llais y claf a'r cyhoedd" yn eu hardaloedd daearyddol perthynol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am weithgareddau diweddar y CICau yng Nghymru yn adroddiadau blynyddol y Bwrdd a'r CICau unigol, sydd ar gael ar wefan y Bwrdd¹

CYFLWYNIAD

Mae'r CICau yn croesawu, yn fras, nodau Llywodraeth Cymru i gyflwyno ei Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) newydd. Fodd bynnag, credwn fod angen newidiadau i gryfhau'r cynigion mewn rhai agweddau sylfaenol ac allweddol, er mwyn sicrhau bod nodau Llywodraeth Cymru a disgwyladau'r cyhoedd yn cael eu cyflawni.

Rydym wedi nodi isod ein hymateb manwl i bob un o'r cynigion.

¹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

EGWYDDORION CYFFREDINOL Y BIL

Dyletswydd gonestrwydd ac ansawdd

Mae'r cyhoedd yn gywir yn disgwyl bod y rheiny sy'n gyfrifol am ddarparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (yn unigolion ac yn sefydliadau fel ei gilydd) yn gwneud hynny'n effeithiol, ac mewn modd sy'n agored, tryloyw, gonest a didwyll.

Mae'r methiannau diweddar, mewn gwasanaethau mamolaeth a ddarparwyd gan gyn-Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn atgof trist o'r hyn all ddigwydd pan fo pethau'n mynd o chwith mewn sefydliadau iechyd a gofal. Yn yr achos hwn, nid yn unig y bu methiant i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ond methiant hefyd i ymddwyn yn agored a thryloyw wrth ymateb i bryderon a godwyd ynghylch y gwasanaethau hynny.

Mae gan y cynigion yn y Bil, i gyflwyno dyletswydd gonestrwydd newydd a chryfhau'r ddyletswydd ansawdd yn y GIG, y potensial i helpu i sicrhau na fydd methiannau fel y rheiny yng Nghwm Taf yn digwydd eto.

Bydd yn bwysig bod y ffordd mae'r gofynion newydd yn cael eu cyflwyno yn darparu'r catalydd, i gyflawni newid diwylliant go iawn a pharhaol.

Rhaid i hyn gynnwys cydnabod y rôl allweddol sydd gan arweinwyr sefydliadol wrth osod y naws cywir, a gweithredu'n gyflym a phendant pan fo pethau'n mynd o chwith. Bydd angen i Lywodraeth Cymru roi sylw digonol i ddatblygu arweinyddiaeth, a chyfrifoldeb ac atebolrwydd uwch reolwyr yn y GIG.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ymgymryd ag ymgysylltu pellach ynghylch y ddyletswydd gonestrwydd, fel bod y trefniadau manwl a'r canllawiau ategol yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl e.e. beth mae 'niwed lleiaf' yn ei olygu'n ymarferol.

Bydd y corff llais y dinesydd newydd mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi a yw'r gofynion newydd hyn yn gwneud gwahaniaeth positif ym mhrofiadau pobl o'r GIG yng Nghymru, a sut.

Corff llais y dinesydd

Mae cyflwyno'r Bil yn rhoi cyfle i adeiladu ar etifeddiaeth y CICau yng Nghymru, drwy gyflwyno corff llais y dinesydd arunigol, annibynnol a gwirioneddol gryfach, i weithio ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r CICau yn croesawu'r nodau eang ar gyfer y corff newydd, a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Fil, i:

- gryfhau llais y dinesydd yng Nghymru mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod dull effeithiol gan bobl i sicrhau bod eu barnau'n cael eu clywed;
- sicrhau bod unigolion yn derbyn cyngor a chymorth wrth wneud cwyn mewn perthynas â'u gofal; a
- defnyddio profiadau defnyddwyr gwasanaethau i ysgogi gwelliant.

Credwn fod y nodau eang hyn, a'r darpariaethau yn y Bil, yn mynd peth ffordd i adlewyrchu'r hyn mae pobl yn dweud wrthym sy'n bwysig iddynt.

Roeddem yn falch o weld, er enghraifft, bod y cynigion yn bwriadu bydd y corff newydd yn:

- ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl mewn gwahanol ffyrdd;
- adlewyrchu barnau a chynrychioli buddiannau pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, drwy wneud gosodiadau i gyrff iechyd a gofal (gan gynnwys ar newidiadau i wasanaethau);

- ◌ ymestyn y cymorth sydd ar gael i bobl dan 18 oed sydd am wneud cwyn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; a
- ◌ bod yn gorff arunigol, annibynnol, tu allan i'r GIG, sy'n gallu cyflogi ei staff ei hun a recriwtio ei aelodau gwirfoddol ei hun.

Mae'r CICau yn croesawu ymagwedd sy'n darparu hyblygrwydd, fel bod y corff newydd yn gallu trefnu ei hun, cyflawni ei weithgareddau yn briodol, ac addasu i ddatblygiadau ac anghenion yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysig iawn yn erbyn tirlun o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol esblygol ymhlith poblogaeth Cymru.

Ond, mae'n hanfodol hefyd bod y Bil ei hun yn cynnwys yr egwyddorion allweddol, a fydd yn rhoi sylfaen gadarn i'r corff newydd i gyflawni ei nodau.

Credwn fod yn rhaid gwneud y cynigion yn gryfach mewn rhai meysydd sylfaenol ac allweddol. Mae angen gwneud hyn fel bod y corff newydd yn cael ei gyfarparu'n briodol â'r adnoddau cywir i wneud y gwaith y disgwylir ganddo ledled Cymru, ac y bydd yn parhau i fod yn addas at y diben ymhell i'r dyfodol, ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Mae'r agweddau hyn wedi eu nodi yn yr adran nesaf.

RHWYSTRAU POSIB A CHANLYNIADAU ANFWRIADOL

Corff llais y dinesydd – pwyntiau cyffredinol

Mae'r CICau o'r farn, fel y mae'r Bil wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, bod yna rai rhwystrau posib a chanlyniadau anfwriadol, a allai gyfyngu'n sylweddol ar allu'r corff llais y dinesydd newydd i gyflawni ei nodau a'i swyddogaethau.

Rydym yn cydnabod bod angen cydbwysedd gofalus wrth ddatblygu cyfreithiau newydd. Rydym yn cytuno bod y fframwaith statudol presennol, sy'n rheoli'r ffordd mae'r Bwrdd a'r CICau yng Nghymru yn gweithredu, yn rhy ragnodol.

Mae'n dangos, ond yn rhy dda, bod gormod o gymhlethdod a manylder yn gallu cyfyngu ar hyblygrwydd corff i addasu ac ymateb i amgylcheddau newidiol ac amgylchiadau gwahanol. Felly, rydym yn croesawu'n fawr iawn yr hyblygrwydd a gynnigir gan y Bil newydd.

Wedi dweud hynny, teimlwn fod rhai agweddau sylfaenol o gorff, sy'n cael ei sefydlu i ymddwyn fel corff cynrychiolaidd, y dylid eu traethu mewn deddfwriaeth, fel bod ganddo rym y gyfraith y tu ôl iddo.

Credwn felly y dylid diwygio'r cynigion, fel bod yr **egwyddorion allweddol** canlynol, sy'n rheoli cynllun y corff llais y dinesydd newydd a'r ffordd y caiff ei roi ar waith, wedi eu cynnwys yn y gyfraith:

1. Rhaid i'r corff llais y dinesydd allu ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau wrth iddynt dderbyn gofal, drwy hawl mynediad i leoliadau iechyd a gofal

Mae amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn dangos pwysigrwydd ymgysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd:

"Bydd yn rhaid i'r corff hwn ddefnyddio'r holl ddulliau ymgysylltu sydd ar gael iddo, er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd niferoedd mawr o bobl i gasglu eu barn am faterion yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol"

"Bydd yn hanfodol bod gan y corff strategaeth i sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf posib gydag aelodau'r cyhoedd"

"Bydd angen i'r corff ymgysylltu, nid yn unig â defnyddwyr presennol y gwasanaethau, ond hefyd â defnyddwyr blaenorol, darpar ddefnyddwyr posib, aelodau o deuluoedd y defnyddwyr gwasanaethau ayb., er mwyn sicrhau bod y safbwyntiau a gesglir mor gynrychioliadol â phosib".

Rydym yn cytuno. Rydym yn cydnabod hefyd gwerth y pŵer ychwanegol eang, a draethwyd yn y Bil "i'r corff llais y dinesydd wneud unrhyw beth a allai hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w cyflawni neu'n gysylltiedig â'u cyflawni".

Rydym yn cytuno bod angen i'r corff llais y dinesydd allu datblygu, a chael mynediad at ystod eang o ddulliau ymgysylltu amrywiol ac arloesol. Byddai hyn yn cynnwys adnoddau megis polau piniwn ar-lein, grwpiau trafod ac ymgynghoriadau.

Fodd bynnag, ni fydd dulliau fel y rhain yn ddigon i sicrhau bod y corff llais y dinesydd yn gallu clywed yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr presennol y gwasanaethau, ac yn enwedig gan bobl a all fod yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus – ar yr adeg maent yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal.

Credwn dylai'r penderfyniad, a ddylai rhywun rannu ei farn a'i brofiad gyda'r corff llais y dinesydd, orwedd gyda'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, ac **NID** rheolwyr iechyd a gofal.

Felly, credwn ei bod yn bwysig fod **hawl mynediad** i leoliadau iechyd a gofal gan y corff llais y dinesydd – fel y gall ymweld i glywed yn uniongyrchol gan bobl, wrth iddynt dderbyn gofal, a heb angen caniatâd cyrff iechyd a gofal i ymweld â'u safleoedd yn gyntaf.

Mae'r CICau yn deall bod pryderon cyfreithiol ynghylch rhoi hawl mynediad i'r corff newydd. Codwyd pryderon ynghylch hawliau dynol yn arbennig.

I fod yn glir, mae'r CICau yn cydnabod bod llawer o wasanaethau iechyd a gofal eisoes yn cael eu darparu yng nghartrefi preifat pobl, ac y bydd hyn yn cynyddu yn y dyfodol.

Nid yw'r CICau o'r farn y byddai'n briodol i gorff llais y dinesydd i fod â hawl cyfreithiol i fynd i mewn i gartref preifat unigol y person sy'n derbyn gofal, heb ei ganiatâd. Nid dyna'r hyn a gynnigir.

Credwn byddai dyletswydd cydweithredu ar gyrff iechyd a gofal yn effeithiol, i alluogi'r corff newydd i glywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi unigol, preifat, e.e. trwy gael cyrff iechyd a gofal cymdeithasol i holi pobl, wrth iddynt ddarparu gofal, i weld a fyddent yn hoffi rhannu eu barnau a'u profiadau gyda'r corff llais y dinesydd.

Fodd bynnag, dylai hawl mynediad fod yn berthnasol, lle mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu'n uniongyrchol o leoliadau y mae cyrff iechyd a gofal yn berchen arnynt, yn eu rheoli neu'n eu prydlesu, neu os yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan ddarparwyr gwasanaeth eraill (mewn lleoliadau y maent yn eu darparu), drwy drefniant wedi'i gomisiynu neu'i gontractio. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gomisiynwyd gan gyrff iechyd a gofal dros y ffin yn Lloegr.

Yr hyn a geisir yw hawl mynediad i'r ardaloedd cyffredin mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac nid hawl mynediad i ystafelloedd preifat defnyddwyr gwasanaethau.

Gan fod y rhain yn ardaloedd a rennir, y mae pobl eraill yn ymweld â nhw'n aml, e.e. ffrindiau a pherthnasau, y cyngor cyfreithiol y mae'r CICau wedi'i gael yw na fyddai ystyriaethau Deddf Hawliau Dynol yn cael eu cynnwys.

I'r graddau bod pryderon yn parhau, gellid mynd i'r afael â'r rhain drwy fesurau diogelu priodol, neu gyfyngiadau ar y pŵer hwn.

Byddai hyn yn sicrhau bod modd ymweld â darparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol, ar amser sy'n cyflwyno'r gwasanaeth fel y byddai pobl yn ei brofi fel arfer, mewn amser real, gydag atborth diymatal.

Mae'r cyhoedd a chynrychiolwyr cymunedau lleol yn ystyried bod yr hawl hon yn elfen hanfodol o gorff llais y dinesydd newydd, cryfach. Mae'n rhoi'r gallu i weithredu'n annibynnol ac yn gyflym, mewn ymateb i'r pethau sydd bwysicaf i bobl am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r gallu i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl, wrth iddynt dderbyn gwasanaethau, yn hanfodol, fel rhan o ymagwedd gyffredinol ehangach at ymgysylltu â phobl ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n darparu ffordd bwysig o gasglu barnau a phrofiadau pobl, fel y gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gynrychioli eu buddiannau i gynllunwyr a darparwyr gwasanaethau.

Mae'r pwyntiau canlynol yn arbennig o berthnasol i'r mater hwn:

🕒 Mae angen i gorff llais y dinesydd allu clywed yn uniongyrchol gan bobl yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus

Mae mwyafrif y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd yn dweud wrth y CICau eu bod yn teimlo'n fwy bregus ar adegau pan fyddant yn derbyn gwasanaethau GIG, na fyddent fel arall, e.e. pan eu bod yn teimlo'n iach neu'n gallu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae pobl mewn lleoliadau gofal cymdeithasol mewn sefyllfaoedd arbennig o fregus hefyd – ac efallai eu bod yn teimlo na allant (neu nad oes modd iddynt) fynegi unrhyw bryderon yn annibynnol.

Er enghraifft, mae'n bosib eu bod yn teimlo fod oedran, breuder neu anabledd corfforol neu ddeallusol, yn eu cyfyngu. Efallai fod rhai'n cael trafferth mynegi eu hunain ar bapur, neu eu bod heb fynediad at gyfrwng electronig i roi atborth.

I rai pobl, mae aelod o'r teulu neu rywun arall sy'n poeni amdanynt yn gallu eu helpu a'u cefnogi i leisio'u barn, fel eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt, pan fo ei angen arnynt, yn y ffordd y mae ei angen arnynt.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nad ydym yn dibynnu ar hyn – nid oes gan rai pobl gefnogaeth o'r fath, neu nid ydynt yn dymuno, neu'n teimlo y gallant rannu eu pryderon gyda'r bobl sy'n poeni amdanynt.

Yn aml, mae pobl yn dweud wrth y CICau nad ydynt am “greu ffwdan”, drwy godi pryder neu broblem am eu gofal eu hunain tra eu bod yn derbyn gofal – er mai dyma eu siawns orau o ddatrys y broblem neu’r pryder ar unwaith.

Weithiau, nid ydynt am achosi trafferth i’r staff, am eu bod yn gweld mor brysur maen nhw. Weithiau, mae arnynt ofn codi pryder, rhag ofn i hyn effeithio ar eu gofal parhaus. Nid a yw’r canfyddiad hwnnw’n realiti yw’r broblem. Yr hyn sy’n bwysig yw pa mor hyderus mae pobl yn teimlo am roi atborth gonest ar eu profiad.

Mae gallu rhannu barnau a phrofiadau ‘yn y fan a’r lle’, gyda phobl leyg annibynnol sydd â dealltwriaeth dda o faterion lleol, yn darparu modd pwysig i gryfhau lleisiau pobl – ac i ymdrin ag, neu ddwysáu unrhyw faterion allweddol sy’n peri pryder ar unwaith.

🕒 Mae angen i gorff llais y dinesydd gael darlun cyfoes a chytbwys o brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal

Mae ymweliadau dirybudd yn rhoi cyfle i amrywiaeth o bobl rannu eu barnau a’u profiadau o wasanaeth penodol (neu amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir mewn lle penodol), wrth iddynt dderbyn gofal a thriniaeth.

Mae’n rhoi ciplun cytbwys o sut mae gwasanaethau’n edrych a theimlo ar amser penodol. Mae’n cael gwared ar unrhyw awgrym bod darparwyr gwasanaethau’n paratoi ar gyfer ymweliad.

Mae ffurfiau eraill o ymgysylltu, p’un ai eu bod wedi eu targedu at wasanaeth penodol neu amrywiaeth o wasanaethau mewn ardal neu leoliad penodol, yn cael eu defnyddio’n fynych gan y CICau, pan eu bod am gyrraedd cynulleidfa ehangach ynghylch darparu gwasanaeth dros gyfnod hirach o amser.

Fodd bynnag, yn naturiol, nid ydynt yn gallu cael ‘ciplun’ yn y fan a’r lle yn yr un modd yn union.

Nid ydynt bob amser ychwaith yn llwyddo i gael ciplun cwbl gytbwys o wasanaeth penodol, neu wasanaethau mewn ardal neu leoliad penodol.

Mae hyn oherwydd nad yw'r dull hwn bob amser yn denu'r amrywiaeth ehangaf o farnau a phrofiadau sydd gan bobl o bosib. Mae pobl yn fwy tebygol o ymateb i ddulliau ymgysylltu eangach, os ydynt yn teimlo'n gryf iawn am eu profiad. Er enghraifft, os ydynt yn teimlo eu bod wedi cael profiad eithriadol o dda neu ddrwg.

Mae pobl sy'n teimlo iddynt gael profiad da yn gyffredinol, neu ddigon derbyniol, yn llai tebygol o fynd ati i roi atborth. Gall hyn wro'r darlun a roddir o wasanaethau.

Yn benodol, ein profiad ni yw bod y bobl yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus mewn cymdeithas, boed hynny o ran eu statws economaidd-gymdeithasol neu fel arall, yn llai tebygol o fod yn rhagweithiol wrth leisio'u barn.

Mae'n hanfodol bwysig felly bod gan y corff newydd fodd o gyrraedd pawb.

📌 Mae angen i gorff llais y dinesydd allu ymateb yn gyflym i arwyddion "rhybudd cynnar" am wasanaethau neu leoedd penodol, a allai ddynodi problem fwy eang

Mae bod â phresenoldeb dyddiol parhaus mewn cymunedau lleol, ledled Cymru, yn golygu gallai corff llais y dinesydd, yn ôl ei natur, ymateb yn gyflym i bryderon sy'n cael eu codi yn lleol, drwy drefnu ymweliad wedi'i dargedu, neu ymweliad â gwasanaeth neu le arbennig.

Mae ymweld, yn rheolaidd, i glywed gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r rheiny sy'n ei ddarparu, a chael gweld dros ei hun sut mae gofal yn cael ei ddarparu, o safbwynt lleyg, yn gallu rhoi arwydd pwerus a yw'r pryderon yn rhai unigol, 'untro', yn brofiad cyfyngedig, neu'n rhywbeth a all fod yn fwy systemig ei natur.

◌ **Mae angen i gorff llais y dinesydd i ddefnyddio ei weithgareddau ymweld i weithio fel rhan o system ehangach - trwy atgyfeirio, ymateb i, neu ddilyn i fyny ar faterion a godwyd gan gyrff eraill, e.e. arolygiaethau**

Mae'r CICau yn cytuno gyda bwriad Llywodraeth Cymru, i gael y corff llais y dinesydd ac eraill i weithio'n agos gyda'i gilydd. Rydym yn cytuno hefyd dylai'r wybodaeth a gesglir gan y corff llais y dinesydd gael ei rannu gyda chyrff eraill, megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae adroddiad AGIC, ar ei arolwg o'r Uned Asesu yn Ysbyty Prifysgol Cymru, yn enghraifft dda o sut mae rhannu pryderon CIC gydag eraill yn gallu arwain at weithredu pellach.²

Ond nid yw'n ddigon i'r corff llais y dinesydd newydd i ddibynnu'n unig ar gyfeirio materion at eraill, fel y mae memorandwm esboniadol y Bil yn nodi:

"efallai y bydd y Corff yn clywed gan ddefnyddwyr gwasanaethau dro ar ôl tro bod diffygion mewn triniaeth ar ward benodol, a dyma'r math o wybodaeth y gallai'r Corff ddymuno ei rannu ag AGIC (er mwyn llywio ei raglen arolygu) yn ogystal â'i rannu â'r sefydliad dan sylw".

Mae rhannu gwybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â materion sy'n dod i'r amlwg, yn gweithio orau pan fo'r wybodaeth yn mynd **i'r ddau gyfeiriad** - ar hyn o bryd, mae'n gweithio rhwng y CICau ac AGIC yn unig.

Mae gallu dilyn i fyny ar faterion a nodwyd yn flaenorol, a gafodd eu codi gan gyrff eraill, yn darparu modd pwerus o sicrhau ffocws parhaus a chadarn ar ofalu bod pethau'n gwella, mewn ymateb i feysydd pryder.

² https://agic.org.uk/sites/default/files/2019-06/190628uhwcy_0.pdf

Gall ffocws ac ymagwedd gyfunol helpu i sicrhau bod camau neu welliannau, y cytunwyd arnynt gan ddarparwyr gwasanaeth, yn cael eu cyflawni ar amser neu, os bydd oedi, y gweithredir yn eu cylch a'u dwysáu, lle bo angen.

Mae cytuno gyda chyrff eraill, sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i fater penodol, yn bwysig. Yn y modd hwn, gallwn wneud y defnydd gorau posib o adnoddau cyfyngedig i bobl Cymru.

Byddai 'gweithlu' gwirfoddol lleol, ymatebol ac wedi'i gyfarparu'n dda, o fewn y corff llais y dinesydd, yn galluogi i ymweliadau ymatebol i gael eu cynnal mewn modd cyflym ac effeithiol.

Mae hyn yn bwysig oherwydd bod y cyhoedd yn disgwyl i gorff llais y dinesydd allu ymateb, yn gyflym ac yn effeithiol, i bethau sy'n effeithio ar bobl yn lleol - yn enwedig pan nad yw materion o'r fath yn cyrraedd y trothwy i gyrff arolygiaeth eu cynnwys yn eu darpar raglen arolygiadau, neu os yw'r darpar raglen honno'n golygu y bydd peth amser cyn y bydd arolwg yn bosib.

❗ Mae angen i gorff llais y dinesydd allu profi, yn annibynnol, y sicrwydd a roddir gan ddarparwyr gwasanaethau am eu gwasanaethau, drwy glywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n derbyn y gwasanaethau hynny

Mae'r rheiny sy'n gyfrifol am gynllunio, datblygu, comisiynu a darparu gwasanaethau yn rhoi sicrwydd, yn rheolaidd, am y gwasanaethau hyn mewn cyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd bwrdd cyhoeddus. Gwneir hyn drwy adroddiadau perfformiad ac adroddiadau eraill, gan amlaf, sy'n cynnwys ystod eang o fydryddiaeth, targedau a gwybodaeth feintiol arall.

Mae adroddiadau sy'n cynnwys dangosyddion mwy ansoddol o brofiadau personol pobl o'r gwasanaethau hynny yn llai datblygedig. Yn aml, cânt eu hystyried ar wahân i ddangosyddion perfformiad eraill, ac efallai na fydd parch cyffelyb i'r rhain bob amser.

Gall corff llais y dinesydd cryf, gweithgar yn lleol ac annibynnol, ddod â chydbwysedd mawr ei angen - gan brofi'r sicrwydd a roddir gan ddarparwyr gwasanaethau, drwy glywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Mae asesu, yn annibynnol, perfformiad gwasanaeth neu berfformiad ar lefel sefydliadol, o safbwynt lleyg, gan ddefnyddio'r atborth a rannwyd gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny, yn helpu i roi darlun mwy cynhwysfawr a yw gwasanaethau'n diwallu anghenion unigolion a chymunedau, o ran y pethau sydd bwysicaf iddynt.

ĉ Mae angen i gorff llais y dinesydd allu hysbysu ac ymateb i faterion a godwyd drwy ei ystod o weithgareddau

Mae angen i gorff llais y dinesydd glywed gan bobl mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd.

Mae hyn fel ei fod yn deall yn iawn sut mae pobl a chymunedau lleol yn teimlo am eu gwasanaethau iechyd a gofal, a'i fod yn gallu ymateb yn gyflym i helpu gyrru gwelliannau, lle mae eu hangen.

Gall clywed gan bobl mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau neu grwpiau lleol, ddod â phersbectif pwysig iawn y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau i wasanaethau iechyd a gofal lleol.

Yn yr un modd, mae cefnogi pobl yn uniongyrchol, sy'n codi pryderon penodol am y gofal a'r driniaeth a gawsant, yn darparu dangosydd pwysig hefyd o ble all pethau fod yn mynd o chwith.

Fodd bynnag, weithiau mae barn y cyhoedd yn gyffredinol, a barn defnyddwyr gwasanaethau (sydd â phrofiad personol o wasanaeth iechyd a gofal arbennig), yn gwahaniaethu.

Mae'n bwysig felly bod y barnau a'r safbwyntiau a gesglir yn un ffordd, e.e. trwy ddigwyddiadau ymgysylltu, yn gallu cael eu profi a'u dilyn i fyny mewn ffordd arall, e.e. trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau wrth iddynt dderbyn gofal.

☺ **Mae angen i gorff llais y dinesydd allu gweld lle mae angen datblygu / newid gwasanaethau ymhellach**

Mae pobl yn rhannu eu barnau a'u profiadau o wasanaethau iechyd a gofal am **eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth**. Weithiau, maent am ddiolch i bobl am ddarparu gwasanaeth ardderchog. Weithiau, maent am rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda gydag eraill.

Weithiau, maent am rannu'r hyn nad sy'n gweithio, fel nad yw pobl eraill yn cael yr un profiad. Weithiau, maent am rannu sut all bethau fod yn well.

Mae'n ymwneud bob amser â gwerthfawrogi'r atborth hwnnw, drwy wrando a gweithredu yn ei gylch. Nid yw'n ddigon i ddarparwyr iechyd a gofal fynd ati i geisio barnau pobl, pan fyddant yn credu eu bod yn gwybod beth sydd angen ei newid.

Mae angen i ddarparwyr iechyd a gofal i ymateb pan fo pobl a chymunedau yn nodi'r hyn sydd angen ei newid.

Dylai corff llais y dinesydd gweithgar, lleol, allu defnyddio'r atborth amser real mae'n ei gasglu, drwy ei ymweliadau i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, i yrru newidiadau ar raddfa fach, yn ogystal â rhannu'r hyn sy'n gweithio'n dda ym marn pobl, neu'r hyn sydd angen ei newid ar raddfa llawer yn fwy, fel ei fod o fudd i bawb.

☺ **Mae angen i gorff llais y dinesydd allu gwirio a yw gwasanaethau sydd wedi newid yn diwallu anghenion pobl**

Yn aml, mae gwasanaethau iechyd a gofal yn dda iawn am osod gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a nodi'r hyn a fydd yn well i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny, pan fyddant wedi newid y ffordd mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu cynllunio a'u darparu.

Nid yw gwasanaethau iechyd a gofal cystal, bob amser, am edrych yn ôl a gwirio a yw'r pethau ddywedon nhw fyddai'n gwella yn diwallu

anghenion pobl yn well - fel eu bod yn gallu rhannu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn fwy eang, neu fel y gallant sicrhau y byddant yn gwneud yn well y tro nesaf.

Byddai corff llais y dinesydd, sydd wedi bod yn rhan o bob cam o gynllunio a datblygu gwasanaeth, mewn sefyllfa dda i ganfod a yw newidiadau wedi gweithio.

Gall targedu ei ymweliadau, er mwyn clywed gan bobl pan fo newidiadau'n cael eu cyflwyno am y tro cyntaf, **ac i geisio barnau pellach** pan fydd y newidiadau wedi ymsefydlu, helpu i fesur unrhyw fwlch rhwng y rhyngwlad a'r realiti.

Mae gan y cyrff llais y dinesydd yn Lloegr (Healthwatch³) a Gogledd Iwerddon (Patient and Client Council⁴) hawl mynediad i leoliadau iechyd a gofal, er mwyn clywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n derbyn gofal. Gallant wneud hynny hefyd heb roi rhybudd ymlaen llaw, lle maent o'r farn bod hyn yn angenrheidiol.

Yn anaml mae Healthwatch yn defnyddio ei bŵer mynediad dirybudd. Mae un o gyrff lleol Healthwatch yn gwneud pwynt pwysig wrth esbonio eu hymagwedd at y pŵer hwn:

"mae'n arf pwerus i'w ddefnyddio pan fo gennym reswm i gredu nad yw popeth yn iawn mewn cyfleuster. Croesewir ein hymweliadau gan amlaf ond, yn achlysurol, mae angen i ni fynd ar drywydd sylwadau neu adroddiadau, lle gallai rhoi rhybudd ymlaen llaw rwystro pwrpas yr ymweliad".

Gyda hawliau wrth gwrs y daw cyfrifoldebau. Byddai'n bwysig felly bod hawl mynediad i gorff llais y dinesydd yn cael ei fframio, mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio mewn modd cyfrifol a phriodol. Mae Healthwatch wedi paratoi canllaw defnyddiol ar ei ddefnydd o'r hawl yn Lloegr, fel bod pawb yn deall ei phwrpas a'i defnydd⁵.

³ <https://www.healthwatch.co.uk/>

⁴ <https://patientclientcouncil.hscni.net/>

Mae'r CICau o'r farn fod hyn oll yn dangos y bydd defnyddio pwerau mynediad, mewn modd cyfrifol a phriodol, yn annog a chynorthwyo pobl i gael llais, pan fo arnynt ei angen fwyaf. **RHAID** iddo fod yn arf allweddol yn arfdy corff llais y dinesydd, os yw am allu cyflawni ei nodau yn effeithiol.

Fel y mae'r Bil wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, gallai'r corff llais y dinesydd gael ei rwystro rhag cael mynediad effeithiol at gyfran sylweddol o'r bobl y mae i fod i'w cynrychioli, h.y., pobl sy'n derbyn gofal.

Gwyddwn fod mwyafrif y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan y sector preifat. Disgwylir i'r angen am ofal cymdeithasol yng Nghymru, ynghyd â gwledydd eraill, i gynyddu gydag amser. Mae'r mater hwn felly yn debygol o ddod yn fwy pwysig, ac felly mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael ag ef nawr.

2. Dylai pobl allu gweld yn glir sut mae eu barnau a'u profiadau wedi cyfarwyddo a dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed gan gyrff iechyd a gofal

Gwyddwn fod pobl am i'r corff newydd i fod ag '**awdurdod i orfodi**'. Maent am iddo gynrychioli eu buddiannau, ac i gyrff iechyd a gofal orfod ystyried eu barn ac ymateb.

Egwyddor arweiniol ymgysylltu â'r cyhoedd yw bod pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad.

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru⁶, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, yn darparu set troswaol o egwyddorion ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru sydd â rôl mewn ymgysylltu â phobl.

⁶ <https://participation.cymru/cy/egwyddorion/>

Mae pŵer dylanwad wrth wraidd hyn. Mae angen i'r corff llais y dinesydd allu dangos sut mae wedi ei gyfarparu i adlewyrchu barnau pobl a chynrychioli eu buddiannau.

Mae hyn fel y bydd pobl yn hyderus bod rhannu eu barnau a'u profiadau gyda'r corff newydd yn gallu gwneud gwahaniaeth, a bod pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad (yn unol â'r egwyddorion cenedlaethol).

Mae'r CICau yn falch bod y Bil yn gosod dyletswydd ar y GIG ac awdurdodau lleol i ystyried y gosodiadau a wnaed gan y corff llais y dinesydd, ac i allu dangos eu bod wedi gwneud hynny.

Fodd bynnag, o dan y cynigion presennol, nid oes unrhyw ofyniad i hyn gael ei wneud yn rhagweithiol. Nid yw'n glir ychwaith sut y bydd yn ofynnol i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol i ddangos eu bod wedi ystyried gosodiadau wrth wneud eu penderfyniadau. Felly, credwn fod angen i'r gofynion hyn fynd ymhellach.

Mae'r CICau o'r farn y dylai fod yn **ofynnol** i sefydliadau iechyd a gofal i **ymateb** i osodiadau a wnaed gan y corff llais y dinesydd, sy'n gweithredu er budd pobl a chymunedau – ac i wneud hynny'n gyhoeddus, lle mae hyn yn briodol, e.e. wrth ymateb i adroddiadau ymgysylltu'r corff.

Dylai gofyniad o'r fath hefyd gynnwys cyfrifoldeb ar gyrff iechyd a gofal i nodi eu rhesymau yn benodol, mewn amgylchiadau lle mae corff iechyd neu ofal, ar ôl ystyried y gosodiadau a wnaed gan y corff llais y dinesydd ar fater neu faterion penodol, wedi diystyru pob un o'r gosodiadau a wnaed, neu rai ohonynt.

Credwn mai'r ffordd orau o sicrhau bod y corff newydd yn gallu cwrdd â disgwyliadau pobl – o ran lleisio'u barn, a deall effaith rhannu eu barnau a'u profiadau ar y penderfyniadau a wnaed o fewn gwasanaethau iechyd a gofal. Yng Nghymru, gwelir hyn fel elfen bwysig o'r trefniadau CIC

presennol – fel y nodwyd yn yr adroddiad annibynnol diweddar ar wasanaethau mamolaeth.⁷

Mae'r CICau yn croesawu hefyd bwriad Llywodraeth Cymru bod y corff llais y dinesydd yn gallu "**cael dylanwad gwirioneddol ar bolisi cenedlaethol**". Mae'r Bil yn rhoi pŵer amlwg i'r corff llais y dinesydd i wneud gosodiadau i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae angen hefyd i'r cynigion sefydlu'n glir yr hawl i'r corff llais y dinesydd i wneud gosodiadau ar faterion cenedlaethol, h.y. i Weinidogion Cymru.

Ni ddylid tanbriso pwysigrwydd galluogi'r corff llais y dinesydd i glywed gan fwy o bobl, am eu barnau a'u profiadau, nag sy'n bosib gyda'r trefniadau CIC presennol.

Mae'r CICau hefyd o'r farn ei bod yn bwysig fod corff llais y dinesydd yn gallu gwneud gosodiadau i gyrff iechyd a gofal, hyd yn oed lle gall nifer y barnau a'r profiadau a rannwyd gydag ef fod yn gyfyngedig, ond lle mae'n amlwg, o dystiolaeth arall, bod angen cymryd camau i wella gwasanaethau i bobl.

Roedd hyn yn ffactor yn y methiannau diweddar mewn gwasanaethau mamolaeth, lle nad oedd nifer y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd gan gleifion yn cyfateb i'r lefel wirioneddol o bryder ynghylch y gwasanaethau.

Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r corff llais y dinesydd allu mwyhau llais y rheiny sydd efallai yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus, ac sydd heb ffordd arall o leisio'u barn, heb y corff newydd.

Fel y nodwyd mewn man arall yn y ddogfen hon, yn aml, y bobl yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus sy'n cael trafferth mynegi eu barn. Felly, gall pryderon a chwynion fod yn anghymesur o isel ymhlith y poblogaethau hyn.

⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwrandu-ar-farn-menywod-a-theuluoedd-am-ofal-mamolaeth-cwm- taf.pdf>
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/adroddiad-adolygiad-o-wasanaethau-mamolaeth-bwrdd-iechyd-cwm- taf.pdf>

Mae'n bwysig felly bod gan y corff llais y dinesydd y pŵer i wneud gosodiadau yn yr amgylchiadau hyn. Ni all fod yn fwriad i atal y corff rhag gwneud hynny, mewn amgylchiadau lle mae ganddo bryderon gwirioneddol, dim ond oherwydd efallai bod nifer y cwynion penodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn isel.

3. Dylai fod dyletswydd ar gyrff iechyd a gofal i helpu a chynorthwyo corff llais y dinesydd i gwrdd â'i nodau a chyflawni ei swyddogaethau

Mae'r CICau yn falch, o dan y cynigion, bod yn rhaid i gyrff iechyd a gofal hyrwyddo gweithgareddau'r corff newydd.

Credwn y dylai fod yn ofynnol i gyrff iechyd a gofal wneud mwy na hyn. (fel y maent yn gwneud eisoes drwy arferion ac ymarferion yn y GIG).

Credwn dylai fod gan gyrff iechyd a gofal **ddyletswydd i gydweithredu** â'r corff newydd, i gyflawni ei weithgareddau. Dylai fod yn ofynnol iddynt i hwyluso'r broses ymgysylltu, e.e. trwy gysylltu â phobl ar ei ran, at ddibenion casglu atborth annibynnol ar wasanaethau iechyd a gofal.

Mae'r CICau hefyd yn croesawu'r ddyletswydd ar gyrff iechyd a gofal i gyflenwi gwybodaeth i'r corff llais y dinesydd. Mae'n bwysig bod dyletswydd o'r fath yn datgan yn glir y dylai gyrff iechyd a gofal fynd ati'n rhagweithiol i gyflenwi gwybodaeth, a dweud pethau allweddol wrth y corff llais y dinesydd (fel y'u diffiniwyd gan y corff llais y dinesydd), heb orfod gwneud cais arbennig bob tro.

Mae hyn oherwydd bod adegau efallai pan nad yw'r corff llais y dinesydd yn gwybod pa wybodaeth sydd ar gael, a phryd mae arno ei hangen, e.e. pan fo corff iechyd a gofal yn ystyried cynllunio gwasanaethau newydd neu ddatblygu ac adolygu gwasanaethau sy'n bodoli.

Gwyddwn o'n profiad ein hunain a phrofiad pobl eraill ledled y DU, nad yw gyrff annibynnol fel ein un ni angen cyfeirio'n aml at hawliau a dyletswyddau cyfreithiol. Mae hyn oherwydd bod gyrff iechyd a gofal am gydweithio mewn partneriaeth, yn y rhan fwyaf o achosion, i glywed beth

yw barn pobl am eu gwasanaethau, ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu sut orau i ymateb.

Ond gwyddwn hefyd nad yw cyrff am gydweithredu o bryd i'w gilydd a, phan fo hyn yn digwydd, gall fod yn arwydd nad yw popeth yn iawn. Mae'n bwysig felly bod y mesurau diogelwch hyn yn eu lle.

4. Mae angen ffocws lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gorff llais y dinesydd, wedi'i ategu gan fframwaith cadarn o aelodau gwirfoddol

Mae pobl eisiau corff llais y dinesydd sydd â ffocws a phresenoldeb lleol, sy'n hygyrch i bawb. Mae hynny'n golygu gallu mynd i glywed gan bobl, nad sy'n gallu gadael y man lle maent yn derbyn gofal mewn cymunedau lleol.

Mae'n golygu ymateb yn gyflym i'r hyn sydd bwysicaf i bobl a chymunedau am eu gwasanaethau lleol, a thrafod y materion hyn yn uniongyrchol gyda chyrff iechyd a gofal.

Mae'n golygu bod eiriolwyr cwynion yn gallu cwrdd â chleientiaid yn bersonol, yn eu hardal leol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu rhoi strwythur lleol ar waith, wedi ei danategu gan adnoddau digonol i gynnal presenoldeb mewn cymunedau lleol (yn ogystal ag i ymgysylltu trwy gyfrwng electronig), fel ei fod yn rhan o wead y cymunedau mae'n eu gwasanaethu ledled Cymru.

Mae'r fframwaith rheoleiddio cymhleth ac anhyblyg, y mae sefydliad CIC yn glynu wrtho ar hyn o bryd, yn golygu nad oes ganddo, bob amser, yr hyblygrwydd sydd ei angen arno i gwrdd ag amgylchiadau newidiol - er gwaethaf ymdrechion y Bwrdd a'r CICau i weithio'n galed gyda'i gilydd, a gydag eraill, i wneud i bethau weithio.

Mae hyn yn gwneud ein trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn fwy cymhleth na ddylent fod. Mae'n effeithio arnom yn ddyddiol, mewn

meysydd megis staffio a chyllid, a pha mor aml mae'n rhaid i ni gwrdd i drafod pethau penodol hyd yn oed.

Felly, mae'r CICau yn cefnogi'r bwriad i ddarparu hyblygrwydd, fel bod y corff llais y dinesydd yn gallu penderfynu ar y strwythur sefydliadol gorau i gwrdd â'i nodau a'i swyddogaethau, ac fel y gall addasu ac ymateb gydag amser i anghenion a disgwyliadau newidiol y cyhoedd.

Ond, gwyddwn hefyd, os nad oes mesurau diogelwch digonol wedi eu cynnwys yn unrhyw drefniant newydd, gallai hyn arwain at gorff nad sy'n cyflawni'r hyn mae pobl ei eisiau, neu ei angen. Mae cyflwyno 'Local Improvement Networks' (LiNKs) yn Lloegr yn enghraifft dda o hyn⁸.

Fel y mae'r Bil wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, byddai'n bosib i'r corff llais y dinesydd i beidio â bod â phresenoldeb lleol, a dod yn sefydliad cwbl ganolog - heb unrhyw fesurau diogelwch yn eu lle, sy'n cynnal egwyddor bwysig lleoliaeth, y cyfeirir ati mor gryf drwyddi draw yn nogfennau ategol y Bil.

Fel bod y corff llais y dinesydd newydd yn cwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd, dylai fod yn rhydd i benderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun, ynghyd â rhaglen o weithgareddau.

Rhaid i hyn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig yn lleol, yn ogystal â'n rhanbarthol ac yn genedlaethol. Felly, dylai fod yn ofynnol i'r corff newydd:

- ymgorffori'r egwyddor o wneud penderfyniadau mor agos â phosib i'r bobl yr effeithir arnynt
- darparu ar gyfer penderfynu ar flaenoriaethau yn lleol, yn unol â thystiolaeth o anghenion lleol

⁸ <https://www.consultationinstitute.org/wales-to-abolish-community-health-councils-can-it-avoid-the-mistakes-made-in-england/>

- darparu ar gyfer yr ystwythder i wneud penderfyniadau sy'n cael effaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Er mwyn cyflawni ei nodau eang yn llwyddiannus, bydd angen i'r corff llais y dinesydd i fod â chyfuniad cryf o aelodau gwirfoddol lleol, sy'n gynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae profiad y CICau eu hunain o recriwtio a chefnogi aelodau gwirfoddol wedi amlygu pwysigrwydd 2 elfen allweddol i rôl gwirfoddolwr:

- y gallu i weld effaith eu cyfraniad yn eu cymunedau lleol a thu hwnt
- y gallu i gyfranogi yng ngweithgareddau'r corff mewn amrywiol ffyrdd, yn unol â'u sgiliau a'u diddordebau.

Rydym yn cydnabod fod y Bil yn darparu pŵer eang, cyffredinol, sy'n galluogi'r corff llais y dinesydd i benodi aelodau gwirfoddol. Rydym yn croesawu hefyd ei fod yn nodi yn nogfennau ategol y Bil, y rôl sylfaenol bwysig y bydd angen i aelodau gwirfoddol ei chwarae yn llwyddiant y sefydliad newydd.

Credwn y dylai agwedd mor bwysig o'r corff llais y dinesydd gael ei chynnwys mewn statud, mewn ffordd sy'n darparu'r hyblygrwydd a'r rhyddid i alluogi'r corff newydd i gynllunio a datblygu ei drefniadau, er mwyn diwallu anghenion nawr ac yn y dyfodol.

5. Mae angen yr holl adnoddau ar gorff llais y dinesydd i wneud y gwaith

Mae pobl am i gorff llais y dinesydd newydd gael yr holl adnoddau sydd eu hangen arno i fod yn gryf, yn annibynnol ac yn effeithiol, wrth gynrychioli buddiannau pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal â'r egwyddorion allweddol yr ydym wedi eu disgrifio uchod, credwn ei bod yn bwysig bod gan gorff newydd system i droi ati, os yw'n pryderu nad yw'r dyletswyddau a'r disgwyliadau a osodwyd ar gyrrff iechyd a gofal yn cael eu cynnal.

Dylai hyn gynnwys, ond ni ddylid ei gyfyngu i, pryderon ynghylch newidiadau i wasanaethau.

Credwn felly, pan fo gan y corff newydd bryderon o'r fath, dylai **system annibynnol, glir**, fod yn ei lle i ymchwilio i hyn a phenderfynu beth ddylai ddigwydd.

Rydym yn cydnabod mai dewis olaf fyddai system o'r fath. Dylid ei defnyddio'n gynnil, a dim ond os yw pob ymgais arall i oresgyn meysydd pryder wedi bod yn aflwyddiannus. Mae'n bwysig bod system o'r fath yn ei lle, i ymdrin ag unrhyw sefyllfa lle mae pryderon nad yw'r egwyddorion sy'n tanlinellu'r Bil yn cael eu cynnal.

Materion eraill a allai fod yn rhwystr / cael canlyniadau anfwriadol

Aelodaeth

Fel y mae wedi ei ddrafftio, mae'r darpariaethau yn y Bil yn rhwystro, yn benodol, aelodau o staff y corff llais y dinesydd rhag bod yn aelodau o'r bwrdd llywodraethol.

Nid yw'n glir pam. Rydym yn cydnabod bod aelodau gweithredol ac aelodau eraill sy'n staff ar fyrddau yn amrywio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru). O dan y trefniadau presennol, er enghraifft, mae'r Prif Weithredwr a 'chynrychiolydd' staff yn aelodau o'r Bwrdd, ac maent yn chwarae rôl weithgar ym mhenderfyniadau'r Bwrdd.

Felly, credwn fod creu gwaharddiad o'r fath yn y gyfraith yn cyfyngu ar hyblygrwydd, **oni bai** fod buddion yr ymagwedd hon yn glir.

Swyddogaethau'r corff llais y dinesydd newydd

Mae'r Bil yn cyfeirio at swyddogaethau'r corff llais y dinesydd newydd. Nid yw'n rhestru'r swyddogaethau. Yn hytrach, mae'r swyddogaethau wedi eu hamlinellu yn yr wybodaeth ategol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu hyblygrwydd, fel bod y corff llais y dinesydd yn gallu addasu gydag amser, mewn ymateb i anghenion a disgwyliadau newidiol.

Fodd bynnag, o ystyried ei rôl a'i bwrpas, a phwysigrwydd sicrhau bod pawb yn glir am y rhan y mae'r corff llais y dinesydd newydd yn ei chwarae ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, credwn y byddai'n well disgrifio'r swyddogaethau hyn yn y Bil ei hun.

Enw'r corff llais y dinesydd newydd

Mae'r Bil yn cyfeirio at y corff newydd fel 'Y Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru'.

Mae'r CICau yn gwybod mai un o'r pethau sydd wedi achosi dryswch ymhlith y cyhoedd o ran eu rôl yw'r enw 'Cyngor Iechyd Cymuned'. Nid yw'n syndod fod llawer o bobl yn cysylltu â ni, gan feddwl ein bod yn darparu gwasanaethau iechyd.

Fel bod pawb yn gallu cyflawni eu dyletswyddau, i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r corff llais y dinesydd newydd, mewn ffordd well, mae'r CICau o'r farn y bydd angen creu enw gweithredol. Y ffordd orau i ddod o hyd i enw fyddai trwy ymgysylltu â'r cyhoedd.

GOBLYGIADAU ARIANNOL Y BIL

Mae'r CICau yn gwybod nad yw'n hawdd, bob amser, nodi'n fanwl gywir beth yw cost debygol creu a rhedeg corff newydd.

Mae'n hanfodol bod y corff llais y dinesydd newydd yn cael ei gyfarparu'n briodol, i **ehangu** a **gwella** llais y dinesydd, ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'w gyllid ei alluogi i weithredu'n effeithiol ar

draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, heb leihau dim ar lais y dinesydd sy'n bodoli eisoes yn y GIG, drwy'r CICau.

Bydd cyfleoedd i arbed arian mewn rhai meysydd, lle mae arian yn cael ei wario ar hyn o bryd i gefnogi cyflawni swyddogaethau CIC.

Bydd angen i'r corff newydd i wneud rhai pethau ei hun hefyd (neu gontractio ag eraill i wneud hynny). Mae hyn yn cynnwys meysydd allweddol lle nad yw'r CICau ar hyn o bryd wedi eu sefydlu a'u hariannu i'w cyflawni, megis:

- mewn meysydd lle mae'r CICau nawr, yn syml, yn addasu'r hyn a baratowyd eisoes ar gyfer cyrff y GIG, e.e. polisïau a gweithdrefnau gweithlu a pholisïau a gweithdrefnau ariannol (gan gynnwys caffael ayb.). Ni fyddai ganddo, er enghraifft, fynediad at swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan Wasanaethau a Rennir y GIG, ar hyn o bryd; a
- swyddogaethau i gefnogi ei weithgareddau, e.e. strategaeth TG, ayb.

Mae defnyddio technoleg newydd, i helpu i gyrraedd mwy o bobl, yn hanfodol ac rydym yn croesawu'r buddsoddiad arfaethedig yn y maes hwn. Mae'r CICau yn glir hefyd bod angen i'r fath dechnoleg i ategu, ac nid cymryd lle, gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Mae angen i'r trefniadau ar gyfer ariannu'r corff newydd i adlewyrchu hyn i gyd. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r rhagamcaniadau ariannol ymhellach. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r meysydd canlynol:

Hinsawdd weithredol

Mae'r asesiad effaith cyhoeddedig yn dweud "tybiwyd na fydd unrhyw argyfyngau na newidiadau sylweddol yn digwydd i'r systemau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y cyfnod y mae'r

costau'n berthnasol iddo, ac felly bod lefel y cyllid a roddir yn debygol o aros yr un fath"

Dros y 12 mis diwethaf, mae cyfran yr adnoddau a ddefnyddiwyd gan y CICau ar ddatblygiadau a newidiadau i wasanaethau wedi cynyddu, i adlewyrchu'r agenda newid trawsnewidiol sy'n cael ei dilyn gan y Byrddau Iechyd. Cyflawnwyd hyn o fewn eu dyraniad presennol. Nid yw'r CICau wedi derbyn unrhyw gyllid 'ôl-ddilynol' pan fu cyllid trawsnewidiol ar gael ar gyfer Byrddau Iechyd, i fwrw ymlaen â rhaglenni newid gwasanaeth sylweddol, yn lleol ac yn rhanbarthol.

Mae hyn pan fo cyllidebau CIC yn gostwng mewn termau real, blwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd yr agenda trawsnewidiol yn parhau yn ystod y cyfnod costio, felly, mae'n hanfodol bod y corff yn cael ei sefydlu i adlewyrchu lefel cyfranogiad y cyhoedd y bydd yn ofynnol, i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd a gofal ar gyflymder, sy'n unol â 'Cymru Iachach.

Mae'n bwysig hefyd ei fod yn adlewyrchu cylch gwaith ehangach y sefydliad newydd, a fydd nawr yn cynnwys y maes gofal cymdeithasol sy'n ehangu.

Staffio'r corff newydd

Y rhagdybiaeth a wnaed yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yw mai'r unig staff ychwanegol fyddai angen ar y corff newydd fyddai i ddarparu gwasanaeth cwynion estynedig. Ni nodwyd unrhyw anghenion staffio ychwanegol, i gwmpasu ei rôl ymgysylltu a chynrychioli ehangach ym maes gofal cymdeithasol.

Tra efallai bydd rhai arbedion yn cael eu gwireddu drwy arfer swyddogaethau'r corff mewn ffyrdd newydd, ni fydd hyn yn ddigon i gyfateb â'r hyn fydd ei angen i ymestyn llais y dinesydd ym maes gofal cymdeithasol.

Bydd angen clir hefyd i sefydlu seilwaith corfforaethol newydd, i alluogi'r corff llais y dinesydd i weithredu'n effeithiol, fel corff cyhoeddus

annibynnol, a chefnogi arfer ei swyddogaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae'r CICau yn cydnabod y gall rhai swyddogaethau swyddfa gefn penodol, a ddarperir ar hyn o bryd gan y sefydliad sy'n lletya yn y meysydd hyn, gael eu contractio allan neu eu cyflenwi ar y cyd, drwy drefniadau ehangach gyda'r sector cyhoeddus.

Hyd yn oed o ystyried hyn, bydd angen amlwg am seilwaith corfforaethol gwahanol iawn i'r un sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn y sefydliad CIC. Bydd angen hwn i gefnogi datblygiad strategol, arweinyddiaeth a chyfranogiad y corff newydd, mewn meysydd allweddol megis:

- cynllunio, polisi a hyrwyddo (gan gynnwys cyngor ar bolisi ac ymchwil, cudd-wybodaeth, cyfathrebu a'r cyfryngau, ayb.),
- gweithlu (gan gynnwys recriwtio, rheoli, arwain a datblygu staff a gwirfoddolwyr ayb.),
- cyllid, ystadau a TG (strategaeth a rheolaeth)

Bydd angen model staffio ar gyfer hyn, sy'n cynnwys sgiliau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd o fewn strwythur staffio'r Bwrdd a'r CICau.⁹

Cymorth cwynion – gan gydnabod bod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ei hun yn nodi cyfyngiadau mewn gwybodaeth i'w alluogi i ragamcanu'n fwy cywir costau ymestyn y gwasanaeth cwynion, fe ddylai hyrwyddo'r corff newydd yn weithredol greu llawer mwy o ymwybyddiaeth o argaeledd ei wasanaeth cwynion. Dylai hyn, yn ei dro, arwain at gynnydd yng nghyfran y cwynion a wneir gan bobl gyda chefnogaeth y corff llais y dinesydd.

⁹<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/899/Board%20Office%20Staff%20Structure%202019%20Welsh.pdf>

Roedd ymateb cynharach y CICau i'r Papur Gwyn 'Gwasanaethau addas ar gyfer y dyfodol'¹⁰ yn glir, mai dim ond unwaith ddylai pobl â phryderon am eu hiechyd a'u gofal cymdeithasol orfod codi'r pryderon hynny, er mwyn iddynt gael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn amserol.

Roeddem yn teimlo bryd hynny, ac yn dal i deimlo nawr, y dylid cael proses gwyno gyffredin ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, y ceir mynediad iddo yn un lle.

Gan nad yw'r Bil yn ymdrin â hyn o gwbl, mae'r CICau yn ystyried hyn yn gyfle a gollwyd, i'w gwneud mor syml a hawdd â phosib i bobl fwrw ymlaen â'u pryderon.

Felly, er mwyn bod yn effeithiol wrth helpu pobl drwy'r gwahanol systemau cwyno, bydd angen i wasanaeth eirioli cwynion y corff newydd i ddod yn arbenigwr ar y systemau gwahanol hyn, fel y gall ddarparu'r cymorth eirioli gorau posib.

Mae'n hanfodol bod ymrwymiad i fonitro a chynyddu cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn, lle bo angen.

Hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Mae'r CICau yn croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth yn cydnabod yr angen i ddarparu hyfforddiant a chymorth datblygu sefydliadol, er mwyn trosglwyddo o'r trefniadau presennol i'r corff newydd, a'i fod yn cydnabod y gallai fod angen cyllid ychwanegol ar gyfer hyn, wrth i'r gofynion ddod i'r amlwg.

Mae'n bwysig cydnabod y bydd angen i elfen allweddol o hyn ganolbwyntio ar sicrhau bod arweinwyr, staff ac aelodau gwirfoddol y sefydliad wedi eu cyfarparu'n briodol gyda'r sgiliau a'r cymhwysedd angenrheidiol, a dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion ymgysylltu, a chynrychioli yn effeithiol – ac nid dim ond gwybodaeth am y GIG a'r sectorau gofal cymdeithasol.

¹⁰ https://llyw.cymru/gwasanaethau-syn-addas-ir-dyfodol?_ga=2.207010899.1370186569.1565695426-1710777206.1565695426

PWERAU I GREU IS-DEDDFWRIAETH

Hyd y gwelwn, mae'r unig bŵer i greu deddfwriaeth eilaidd mewn cysylltiad â'r corff llais y dinesydd, wedi'i gynnwys yn adran 26 o'r Bil.

Er mai pennawd yr adran hon yw "Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol ayb.", mewn gwirionedd, mae'n ymddangos ei bod yn cynnwys pŵer mwy cyffredinol i wneud "darpariaeth atodol, darpariaeth achlysurol neu ddarpariaeth ôl-ddilynol".

Er y gallai hyn, yn yr ystyr gyfreithiol gaeth, roi pŵer digonol i greu deddfwriaeth eilaidd i ategu unrhyw ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, byddem yn disgwyl (ac yn wir rydym yn deall mai dyna'r confensiwn) i bŵer penodol i gael ei roi i Weinidogion Cymru, lle mae bwriad i wneud rheoliadau i ategu adrannau penodol o'r Bil.

Fel y soniwyd mewn man arall, nid yw llawer o'r materion sy'n cael sylw yn y Memorandwm Esboniadol yn ymddangos yn y Bil ar hyn o bryd. Er ein bod yn croesawu'r bwriad i ddarparu mwy o hyblygrwydd, ac i osgoi darpariaethau rhy ragnodol, byddem yn croesawu rhywfaint o eglurder ynghylch a oes bwriad i greu deddfwriaeth eilaidd, neu i gyhoeddi canllawiau statudol mewn perthynas â meysydd penodol.

Unwaith byddwn yn gwybod hyn, yna gallwn ystyried y mater ymhellach.

CASGLIAD

Mae'r CICau yn ddiolchgar am y cyfle hwn i oleuo ystyriaethau'r Pwyllgor ar y Bil pwysig hwn.

Rydym yn ystyried y cynigion yn gyfle arwyddocaol i sefydlu corff llais y dinesydd newydd, a all ddiwallu anghenion a disgwyliadau pobl ymhell i'r dyfodol.

Rydym yn parhau i drafod y cynigion gyda swyddogion polisi, fel y gellir eu datblygu ymhellach i fynd i'r afael â'r meysydd lle mae gan y CICau bryderon.

Edrychwn ymlaen at drafod y cynigion gyda'r Pwyllgor yn y sesiwn tystiolaeth lafar ym mis Medi 2019.